# Cyngor Tref Aberystwyth Town Council

Tŷ'r Offeiriad / The Presbytery
Neuadd Gwenfrewi
Morfa Mawr / Queen's Road
Aberystwyth
SY23 2HS

Council@aberystwyth.gov.uk
www.aberystwyth.gov.uk
01970 624761

Maer Aberystwyth Mayor: Y Cyng. / Cllr. Emlyn Jones


## Cais am Ddyfynbrisiau: Gwasanaethau Dylunio Sefydliadol

Mae Cyngor Tref Aberystwyth yn gwahodd dyfynbrisiau ar gyfer gwasanaethau proffesiynol i gynnal adolygiad o strwythur sefydliadol y Cyngor, a gwneud cynigion ar gyfer gwelliannau neu opsiynau amgen yn ôl yr angen.

### Crynodeb

Mae rôl a chylch gwaith y Cyngor wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae ei strwythur sefydliadol wedi, i raddau helaeth, aros yr un fath. Mae'r Cyngor bellach yn ceisio penodi gwasanaeth proffesiynol i gynnal adolygiad ac asesiad annibynnol o'r strwythur hwn i sicrhau ei fod yn addas at y diben, yn effeithlon, ac yn gymesur â'i gyfrifoldebau a'i gapasiti cynyddol.

Fel amlinelliad, rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn gynnwys y canlynol:

1) Darllen ac adolygu'r dogfennau allweddol canlynol, er mwyn cael dealltwriaeth gyffredinol o'r strwythurau cyfredol:
   - Rheolau Sefydlog;
   - Rheolau Ariannol;
   - Cynllun Dirprwyo;
   - Cylch gorchwyl pwyllgorau;
   - Sampl o gofnodion cyfarfodydd diweddar;
   - Strwythur a rolau staff.

(N.B. Dim ond mewn perthynas ag integreiddio o fewn strwythurau sefydliadol y dylid asesu rolau staff.)

2) Cynnal cyfweliadau gyda'r unigolion allweddol canlynol, er mwyn datblygu dealltwriaeth o ddeinameg fewnol, cael adborth a barn ar effeithiolrwydd y system bresennol, a chasglu gweledigaethau/nodau ar gyfer y dyfodol:
   - Clerc y Dref (a/neu swyddogion eraill, os ystyrir bod angen);
   - Sampl o gynghorwyr.

3) Darparu adroddiad ysgrifenedig i grynhoi canfyddiadau o'r uchod, yn enwedig:
   - Crynodeb gweithredol o'r strwythur presennol (i ddangos dealltwriaeth ohono);
   - Yr adborth a'r canfyddiadau mewnol o strwythur y sefydliad, a'i effeithiolrwydd;
   - Y weledigaeth a'r nodau mewnol ar gyfer dyfodol y Cyngor;
   - Asesiad annibynnol o effeithiolrwydd strwythurau llywodraethu a sefydliadol presennol;
   - Yr ardaloedd sydd angen sylw, o'r uchod;
   - Unrhyw ganfyddiadau allweddol eraill.

4) Darparu cynigion ysgrifenedig ar gyfer gwella/newid/ailwampio (fel y bo'n briodol i fynd i'r afael â'r canfyddiadau uchod) strwythurau sefydliadol, er enghraifft:
   - Ailwampio strwythurau cyfarfodydd / pwyllgorau;
   - Diwygiadau i gyfrifoldebau pwyllgorau presennol;
   - Gwelliannau i drefniadau dirprwyo;
   - Newidiadau i integreiddio staff o fewn strwythurau llywodraethu.

## Cyfranogiad a chyflwyniad

Mae'r Cyngor yn gwahodd cynigion gan unrhyw wasanaethau proffesiynol sy'n ystyried eu bod yn gallu ymgymryd â'r gwaith. Dylai sefydliadau ddangos, yn eu cyflwyniad, eu bod yn gyfarwydd â'r sector cynghorau tref/cymuned yng Nghymru, a dealltwriaeth o lywodraeth leol yng Nghymru yn gyffredinol.

Rhaid i unrhyw berson neu sefydliad sy'n dyfynnu sydd, hyd y gwyddant, â chysylltiad agos neu berthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Cyngor ddatgelu hynny, ynghyd â manylion perthnasol, fel rhan o'u cyflwyniad.

Bydd canfasio unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Cyngor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar gyfer y gwaith, yn arwain at anghymhwyso.

Ni fydd rhwymedigaeth ar y Cyngor i dderbyn y dyfynbris isaf, nac unrhyw ddyfynbris o gwbl..

Dylid cyflwyno cynigion a dyfynbrisiau i Mr W L Rowlands, Clerc y Dref & SAC;
Drwy e-bost at: will.rowlands@aberystwyth.gov.uk
Drwy post at: Tŷ’r Offeiriad
Neuadd Gwenfrewi
Morfa Mawr
Aberystwyth
SY23 2HS
Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at y Clerc ar 01970 624 761.

## Amserlen

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau: | Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2026 (17:00) |
| Dyddiad y cyfarfod dyfarnu: | Dydd Llun 27 Gorffennaf 2026 |
| Adroddiad(au) terfynol i'w cyflwyno erbyn: | Dydd Mawrth 22 Medi 2026 (17:00) |

Cyhoeddwyd 5 Mehefin 2026



Will Rowlands
Clerc y Dref & SAC
Cyngor Tref Aberystwyth